



**Teitl / Title: Polisi a Chod Ymarfer Rhyddid i Lefaru /  
Freedom of Speech Policy and Code of Practice**

**Dyddiad Cyhoeddi / Issue Date:** *Ionawr / January 2021*

*Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval*

<b>Cyfrifoldeb / Responsibility:</b>	<i>Is-Bennaeth Ansawdd / Vice Principal of Quality</i>
<b>Corff Cymeradwyo / Approval body:</b>	<i>Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant - Ionawr 2021 LPIC a'r Corff Llywodraethu Communications and Culture Committee- January 2021 LPIC &amp; Governing Body</i>
<b>Dyddiad Cymeradwyo / Approval date:</b>	<i>I'w ddiweddarau – Stacey i gadarnhau To be updated - Stacey to confirm</i>
<b>Amllder Adolygu / Review Frequency:</b>	<i>3 blynedd 3 Years</i>
<b>Dyddiad Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb / Equality Impact Assessment Date:</b>	<i>Tachwedd 2020 <a href="#">Dolen i'r AEG</a> November 2020 <a href="#">Link to EIA</a></i>
<b>Dyddiad y Daw i Ben: Expiry Date:</b>	<i>28 Ionawr 2023 28 January 2023</i>

**Cwmpas / Scope**

*Gweler y Polisi i gael manylion / Please see the Policy for details.*

*I'w bennu gan y Rheolwr Gweinyddol a Gwasanaethau i Gwsmeriaid /*

*To be assigned by the Admin & Customer Service Manager*

<b>Cyfeirnod / Reference:</b>	<i>Ceir ei bennu wedi cymeradwyo'r ddogfen This will be assigned to the document on approval</i>
<b>Fersiwn / Version:</b>	<i>2</i>
<b>Dosbarthiad / Classification:</b>	<i>Dogfen Arferol Normal</i>

## **Cynnwys**

- Datganiad Polisi ar Ryddid i Lefaru (t.2)
- Cod Ymarfer ar Ryddid i Lefaru (t.3)
- Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (t.4)
- Cyfarfodydd a digwyddiadau ar safleoedd y coleg (t.3)
  - a. Cyfarfodydd a digwyddiadau y mae'r Cod hwn yn berthnasol iddynt
  - b. Trefnu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau o'r fath
- Safleoedd y coleg a wnaed ar gael i sefydliadau allanol eu defnyddio (t. 4)
- Atodiad (t.5)

## **Datganiad Polisi ar Ryddid i Lefaru**

1. Rhaid i fyfyrwyr, llywodraethwyr a gweithwyr y Coleg ymddwyn mewn modd a fydd yn sicrhau Rhyddid i Lefaru o fewn y gyfraith ar gyfer myfyrwyr, llywodraethwyr a gweithwyr y Coleg ac ar gyfer siaradwyr gwadd.
2. Mae'r rhyddid a ddiogelir gan y Cod Ymarfer hwn wedi'i gyfyngu i arfer Rhyddid i Lefaru o fewn y gyfraith. Mae'r Coleg yn credu mai dim ond drwy osgoi gweithredu a defnyddio iaith sarhaus neu bryfoclyd ddiangen gan bawb dan sylw y gellir sicrhau diwylliant o drafodaeth rydd agored a chadarn. Mae'r Coleg yn disgwyl i siaradwyr a'r rhai sy'n cymryd rhan mewn cyfarfodydd, barchu ei werthoedd, bod yn sensitif i amrywiaeth ei gymuned a dangos parch at bob rhan o'r gymuned honno.
3. Mae digwyddiad sy'n debygol o arwain at amgylchedd lle bydd pobl yn profi, neu'n gallu'n rhesymol profi ofn, aflonyddu, bygwth, cam-drin geiriol neu drais, yn enwedig oherwydd eu hethnigrwydd, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw, anabled, oed, priodas / partneriaeth sifil neu ailbennu rhywedd, hefyd yn debygol o fod yn anghyfreithlon o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
4. Mae Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn disgwyl i bob sefydliad addysg bellach ddangos 'sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth'. Nodir hyn yn Adran 26 a'r canllawiau dyletswydd Prevent sy'n cyd-fynd ag ef o dan adran 29 y Ddeddf. Mae'r ddeddf hon yn disgwyl bod gan bob darparwr addysg brotocolau clir ar gyfer siaradwyr gwadd a'u bod yn addas ac yn cael eu goruchwyllo'n briodol. Nid yw'n fwriad gan y ddyletswydd Prevent gyfyngu trafodaethau ar y materion hyn. Fodd bynnag, mae'r coleg yn ymwybodol o'i ddyletswyddau cyfredol i atal trwytho gwleidyddol a sicrhau y caiff materion gwleidyddol eu cyflwyno'n gytbwys.
5. Mae'r datganiad polisi hwn hefyd yn cyd-fynd â Pholisi Chwythu Chwiban y Coleg, y bwriedir iddo annog a galluogi staff i fynegi pryderon difrifol yn y coleg a bod gweithwyr yn cael sicrhwydd yr ymchwilir i bryderon o'r fath, sy'n cael eu mynegi'n gyfreithlon, yn ddiwyll, heb falais ac er budd y cyhoedd.
6. Mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â gwerthoedd y Coleg, sy'n cynnwys bod yn 'barchus a thryloyw'.

## **Cod Ymarfer - Rhyddid i Lefaru**

### **Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 43 o Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986:**

7. O dan adran 43 Deddf Addysg (Rhif 2) 1986, mae'n ofynnol i'r coleg gyhoeddi cod ymarfer a'i gadw'n gyfredol, gan gyfeirio at Ryddid i Lefaru mewn prifysgolion a cholegau. Bydd holl fyfyrwyr a gweithwyr y coleg yn dilyn y cod ymarfer hwn (a amlinellir yma) ar gyfer trefnu cyfarfodydd a digwyddiadau a gynhelir ar safleoedd y coleg (y tu mewn a'r tu allan) ac ar gyfer ymddygiad myfyrwyr a gweithwyr y coleg yn gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau.
8. Mae torri'r Cod Ymarfer hwn yn fwriadol neu'n ddi-hid yn drosedd, a fydd yn gallu arwain at gamau disgyblu (gan ddilyn y gweithdrefnau perthnasol ar gyfer myfyrwyr neu weithwyr) a lle bo unrhyw weithred gan unigolyn yn cynnwys honiad o dorri cyfraith droseddol, bydd y Coleg yn cynorthwyo'r awdurdodau erlyn wrth weithredu proses briodol y gyfraith. Gellir gohirio neu atal unrhyw achos disgyblu mewnol hyd nes y ceir canlyniad achos troseddol.

### **Cyfarfodydd a digwyddiadau ar safleoedd y coleg**

#### **(a) Cyfarfodydd a digwyddiadau y mae'r Cod hwn yn berthnasol iddynt**

9. Yn y rhan hon y Cod mae cyfeiriad at gyfarfod neu ddigwyddiad yn cyfeirio at gyfarfodydd neu ddigwyddiadau eraill lle mae natur y cyfarfod neu'r digwyddiad, hunaniaeth y siaradwr neu'r siaradwyr neu ffactorau eraill yn achosi pryder rhesymol ar ran y trefnwyr, rheolwyr y Coleg neu unigolion eraill, y gellir tarfu ar y cyfarfod neu'r digwyddiad arfaethedig, neu y byddai'n arwain at drais, anhrefn, aflonyddu neu unrhyw weithgaredd anghyfreithlon arall.
10. Mae'r coleg yn gyfrifol am gymeradwyo trefniadau addas ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau o'r fath a chaiff osod unrhyw gyfarwyddiadau, neu gyhoeddi'r fath ganllawiau, sy'n angenrheidiol i sicrhau bod natur ac ymddygiad y cyfarfod yn gyfreithlon ac yn unol â darpariaethau'r Cod hwn.

#### **(b) Trefnu cyfarfodydd a digwyddiadau o'r fath**

11. Mae angen awdurdodi cynnal cyfarfodydd a chynulladau cyhoeddus ar safleoedd y Coleg, boed y tu mewn neu'r tu allan. Mae angen caniatâd y Cyfarwyddwr Cwricwlwm perthnasol neu uwch reolwr perthnasol arall, ynghyd â manylion y dyddiad, amser a lleoliad y gweithgaredd y bwriadwyd ei gynnal. Rhaid cymeradwyo pob siaradwr gwadd allanol a fydd yn ymweld â'r coleg, cyn y digwyddiad, a gwneud hynny'n unol â'r broses a'r asesiad risg ar gyfer siaradwyr gwadd.
12. Rhaid i drefnwyr cyfarfodydd a digwyddiadau gydymffurfio ag unrhyw amodau a osodir gan y coleg ynghylch trefnu'r gweithgaredd a'r trefniadau i'w gwneud i sicrhau diogelwch pawb dan sylw.
13. Dylai unrhyw un sydd â phryderon ynghylch darpar gyfarfod neu ddigwyddiad, fynegi eu pryderon i sylw eu huwch reolwr yn brydlon a bydd yr uwch reolwr yn gweithredu unrhyw gamau rhesymol y gellir eu cyfiawnhau o dan baragraff 2 (a) Cyfarfodydd a Digwyddiadau y mae'r Cod hwn yn berthnasol iddynt (uchod).
14. Dylai trefnwyr cyfarfodydd a digwyddiadau gydymffurfio ag unrhyw amodau a dwyn unrhyw gostau dilynol a osodwyd gan y Coleg sy'n gysylltiedig â'r trefniadau ar gyfer cynnal y cyfarfod. Efallai bydd amodau o'r fath yn cynnwys gofyniad y dylid rhoi tocynnau, y dylid darparu nifer ddigonol o stiwardiaid, y dylid ymgynghori â'r heddlu ynghylch y trefniadau, ac y dylid newid amser a lleoliad y cyfarfod.

15. Ni fydd y Coleg yn ceisio cyfyngu ar gyfarfod na digwyddiad na'i ganslo os yw wedi dilyn yr holl ofynion a nodir yn y Cod hwn, oni bai bod y cyfarfod neu'r digwyddiad, yn eu barn hwy, yn torri ar hawliau a rhyddid cyfreithlon eraill neu'n achosi risg sylweddol i iechyd a diogelwch neu fod sail sylweddol a chyfreithlon arall ar gyfer y cyfyngu neu ganslo.
16. Bydd y coleg yn dod i bob penderfyniad ar ôl ystyried y dystiolaeth sydd ar gael iddo'n ofalus a bydd hynny'n gyfyngedig i'r gweithredoedd hynny sy'n rhesymol, yn gymesur ac yn angenrheidiol i atal troseddu neu anhrefn, neu fel arall i amddiffyn hawliau a rhyddid cyfreithlon pobl eraill.
17. Os yw trefnwyr yn anfodlon gyda chanlyniad penderfyniad y Coleg, gallant ysgrifennu at y Prif Weithredwr gan nodi rhesymau clir dros eu hanfodlonrwydd gyda'r penderfyniad, a gofyn am ailystyried y penderfyniad.

**(c) Safleoedd y coleg a wnaed ar gael i sefydliadau allanol eu defnyddio**

18. Mewn unrhyw achos lle mae'r Coleg yn bwriadu caniatáu sefydliad neu grŵp allanol gynnal cyfarfodydd neu ddigwyddiadau ar safle'r Coleg, bydd yn ofynnol i'r sefydliad neu'r grŵp allanol weithredu yn unol â'r Cod Ymarfer hwn.

**Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol**

19. Rhaid i bob prifysgol a choleg hefyd gydymffurfio â'r hawl i ryddid mynegiant (Erthygl 10) a'r hawl i ryddid ymgynnull a chymdeithasu (Erthygl 11) y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) Mae'r ECHR wedi'i ymgorffori yng Nghyfraith y DU dan y Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

## ATODIAD

### Deddfwriaeth berthnasol a ffynonellau gwybodaeth

- Deddf Addysg 1986 Deddf Addysg (Rhif. 2) 1986
- Deddf Diwygio Addysg 1988
- **Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol – Deddf Hawliau Dynol 1998**
- Deddf Hawliau Dynol Act 1998 (yn ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol)
- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2003
- Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd neu Gred) 2003
- Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976
- Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1976
- Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995, fel y'i diwygiwyd
- Deddf Cydraddoldeb 2006
- Deddf Casineb Hiliol a Chrefyddol 2006
- Deddf Trefn Gyhoeddus 1986
- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
- Deddf Diogelwch rhag Aflonyddu 1997
- Deddf Cyfiawnder Troseddol Act 2003 a Deddf Cyfiawnder Troseddol (Yr Alban) 2003
- Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015
- 

### Polisiau'r Coleg

Fel staff gallwch weld y polisiau hyn drwy glicio ar eich dolen [4Policies](#) ar eich bwrdd gwaith neu drwy glicio [yma](#)

Polisiau a gweithdrefnau perthnasol y coleg:

- Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Polisi Gwrth-aflonyddu, Bwllo ac Erledigaeth
- Polisi Prevent
- Purdah (yn ystod cyfnod etholiadau)
- Polisi Chwythu'r Chwiban
- **[Map Proses Siaradwyr Gwadd](#)**